

Agor y Llyfr

Stori Nehemeia ac ailadeiladu Jerwsalem a gyflwynwyd gan griw Agor y Llyfr yn Ysgol Gwaun Gynfi fore Gwener. Diolch am eu hymroddiad i'r gwaith.

CIC

Cynhelir cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener, Mawrth 16.

Cymorth Cristnogol

Dyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol eleni fydd Mai 13-19. Daeth galwad ffôn o Fangor yn ystod yr wythnos i ddweud fod yr amlenni wedi cyrraedd yno ar gyfer y casgliadau.

Mae'n edrych yn bell iawn i ffwrdd ar hyn o bryd ond buan iawn y daw mae'n debyg.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mawrth 18: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Mawrth 13: Bore Coffi rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch er budd

Y mis nesaf - Deiniolen

Mawrth 11

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Mawrth 18

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 25 (Sul y Blodau)

5.00 p.m. - Mr John Roberts

Ebrill 1 (Sul y Pasg)

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Cronfa Adnoddau'r Capel.

Nos Wener, Mawrth 16: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 18: Bydd aelodau Parti Bytholwyrdd yn arwain yr oedfa am 10.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Ni fydd oedfa gyda'r nos. **Sylwch fod hyn yn wahanol i'r hyn a gyhoeddwyd yn Gronyn yr wythnos ddiwethaf.**

CARMEL

Nos Wener, Mawrth 16: Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 18: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Mawrth 18: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Bydd yr oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Cledwyn Williams, Bangor.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mawrth 18: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Mawrth 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 18

10.00 a.m. - Parti Bytholwyrdd

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - DIM OEDFA

Mawrth 25 (Sul y Blodau)

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Ebrill 1 (Sul y Pasg)

10.00 a.m. - Mr Dafydd Iwan

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Gronyn

Rhif 763
11 Mawrth, 2018

Gwerth £10biliwn



Brynhawn Sul diwethaf roeddem yn dechrau dod dros yr anhwylystod a achoswyd gan eira'r wythnos flaenorol. Ychydig a feddyliem y byddai'r eira'n dychwelyd am ychydig oriau fore Iau. Brynhawn Sul diwethaf hefyd roedd Sergei Skripal a'i ferch Yulia yn mwynhau cinio a thro o amgylch un o ganolfannau siopa Caersallog. Ond yn fuan wedyn canfuwyd y cyn-ysbiwr Rwsiaidd a'i ferch yn ddifrifol wael, a daeth yn amlwg ers hynny iddynt gael eu gwenwyno. Mae llawer yn credu fod a wnelo gwladwriaeth Rwsia ryw beth â'r ymosodiad mileinig, a bu trafod brwd ar y digwyddiad yn San Steffan, a hefyd ar y cyfryngau ac yn y Wasg. Yn naturiol ddigon condemnwyd yr ymosodiad ar y tad a'r ferch, ond fe glywyd llawn cymaint o resynu at yr ymosodiad tybiedig ar 'ein gwlad ni' a'i chyfreithiau trwy'r drosedd haerllug hon ar dir Prydain. Ymysg y mwyaf llafar eu condemnad ar bwy bynnag a fu mor ddigywilydd oedd rhai o bobl amlwg Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Ac erbyn canol yr wythnos, y gair a glywyd ar wefus bron bawb ohonynt i ddisgrifio'r weithred oedd 'brazen'.

Ddydd Gwener, roedd y Llywodraeth yn dathlu cytundeb masnachol a wnaed i werthu pedwar dwsin o awyrennau milwrol Typhoon i Saudi Arabia. Mae'r cytundeb hwn werth £10biliwn i gwmni BAE Systems sy'n cynhyrchu'r awyrennau. Ac onid 'brazen', onid haerllug a digywilydd o'r mwyaf oedd cyfiawnhad Ysgrifennydd Amddiffyn y Llywodraeth, Gavin Williamson o'r

cytundeb: 'Yr ydym wedi cymryd cam allweddol at gwblhau archeb arall am awyrennau Typhoon a fydd yn cryfhau diogelwch y Dwyrain Canol.' Ydy'r Llywodraeth yn credu na fydd y 'fighter jets' hyn yn ymladd? Ydy Theresa May am i ni gredu y bydd yr awyrennau hyn yn sefyll ar lain glanio yn Saudi Arabia gan berswadio pawb i fod yn heddychol yn y rhan honno o'r byd? Oes disgwyl i ni gredu nad yw, ac na fydd yr awyrennau rhyfel hyn a'r tunelli o arfau a werthir i Saudi Arabia yn cael eu defnyddio i ymosod ar a lladd pobl yn Yemen, o gofio bod lluoedd Saudi Arabia yn rhyfela yn y wlad honno ers tair blynedd bellach ac yn cael eu cyhuddo gan fwy nag un mudiad hawliau dynol o ymosod yn anghyfreithlon ar bobl gyffredin.

Y mae'r hyn a ddigwyddodd yng Nghaersallion yn ddychrynlyd iawn, a'r defnydd o gyfrwng nerfol i geisio lladd y tad a'r ferch yn gywilyddus. Ac y mae'n iawn i bobl gondemnio'r fath weithred. Ond yn yr un ffordd, mae lladd pobl gyffredin yn Yemen yn ddychrynlyd. Amcangyfrifir fod dros 10,000 o bobl wedi eu lladd yn y wlad honno ers dechrau'r rhyfel, a chyfran uchel ohonynt yn blant. Mae rhywbeth brawychus ynghylch condemnad croch y Llywodraeth o'r ymosodiad ar ddau berson un diwrnod a'u hymffrost y diwrnod wedyn iddynt daro bargaen i werthu awyrennau a fydd yn debygol o ladd cannoedd os nad miloedd o bobl. Mae £10biliwn yn amlwg yn fwy gwerthfawr na channoedd o fywydau!

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn (A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan Mr Robert Morris, Penygroes.

Cynhelir Oedfa Gŵyl Ddewi gan y plant a'r ieuencid yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg John Lewis Jones.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Dymunwn wellhad buan i'n haelodau sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd:

Balm o Salm



'Y mae'r ARGLWYDD yn frenin; gorfoledded y BYW Y BEIBL ddaear, bydded ynysodd lawer yn llawen ... Y mae'r ARGLWYDD yn caru'r rhai sy'n casáu drygioni, y mae'n cadw bywydau ei ffyddloniaid, ac yn eu gwaredu o ddwylo'r drygionus. Heuwyd goleuni ar y cyfiawn, a llawenydd ar yr uniawn o galon.

Llawenhewch yn yr ARGLWYDD, rai cyfiawn, a moliannwch ei enw sanctaidd' (Salm 97:1, 10-12).

Oedfa Gŵyl Ddewi wedi ei hail drefnu

Bydd plant ac ieuencid capel Carmel, Llanllechid yn cynnal eu Hoedfa Gŵyl Ddewi yn y capel am 10.30 o'r gloch fore Sul nesaf, Mawrth 11 (gan ei bod wedi ei gohirio heddiw).

Bydd cyfle i gael sgwrs dros banded yn y festri ar ôl yr oedfa.

Casgliad y Genhadaeth

Daeth yn bryd unwaith eto i ni wneud y casgliad blynyddol yn Capel Coch at Gronfa Genhadol Chwirydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Gobeithiwn gael y cyfan i law erbyn Sul olaf mis Mawrth.

Cewch roi eich cyfraniad i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r casgyllyddion a fydd yn dod o amgylch fel arfer. Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

Defnyddir yr arian hwn gan Adran y Chwirydd y Presbyteriaid i gefnogi gwaith cenhadol o fewn yr enwad a gwahanol brosiectau cenhadol a dyngarol yma yng Nghymru a thramor.

Myfyrdod Dydd Gwener y Groglith

Perfformiad gan Bedwarawd Eryri
o 'Saith Gair Olaf Crist', Haydn.

Cerddoriaeth, darlleniadau o'r Beibl a cherddi gan Ruth Padel

Dydd Gwener y Groglith, Mawrth 30 am 10.30 y bore

yn Eglwys Sant Peris, Nant Peris

Croeso cynnes i bawb

Cymdeithas Undebol

Cynhaliwyd Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch nos Fawrth, Mawrth 6. Cafwyd sgwrs ddi-ddorol gan Mr Dafydd Ellis, Brynrefail ar 'George M. Ll. Davies: Pererin Heddwch'. Yr oedd gan Mr Ellis gof plentyn o George M Ll Davies yn ymweld â'r ysgol yn Nolwyddelan, ac yr oedd hynny'n amlwg yn rhannol gyfrifol am ei ddiddordeb yn y gŵr hwn a fu'n wrthwynebydd cydwybod adeg y Rhyfel Mawr, yn cynrychioli Prifysgol Cymru fel Aelod Seneddol, yn was fferm ac yn weinidog eglwys. Diolchwyd am y sgwrs gan Gareth Jones.

Angladd

Bu farw Mrs Catherine Lloyd Williams, 6 Rallt Goch, Llanberis yn Ysbyty Gwynedd ddydd Sul diwethaf, Mawrth 4, yn 77 mlwydd oed. Roedd ei hangladd yn Capel Coch a Mynwent Nant Peris ddydd Gwener, Mawrth 9 dan arweiniad y Gweinidog. Mrs Bethan Holding oedd yr organydd. Traddodwyd y deyrnged gan Mr Arwel Jones, Penisarwaun, a chafwyd ganddo ddarlun hyfryd o gymeriad a bywyd Catherine a oedd mor gymeradwy ymhlith ei chyfeillion a'i chydabod yn Llanberis. Cyfeiriodd at chwarter canrif o wasanaeth da a roddodd Catherine i'r Ysgol Feithrin yn Llanberis. Soniodd hefyd am ei gwasanaeth i'r Carnifal a

gwahanol achosion eraill, yn cynnwys cyfnod o wasanaethu'r 'Band of Hope' yn Capel Coch. Soniodd am ei sirioldeb ac am yr hwyl a gaed yn ei chwmmi, a chyfeiriodd mewn ffordd arbennig at y dewrder a'r urddas pan fu farw ei phriod John trwy ddamwain yn Ffrainc bron i 19 o flynyddoedd yn ôl. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phlant Eleri, John, Arwyn, Delyth a Dylan, a'u teuluoedd. Roedd iechyd Catherine wedi torri ers sawl blwyddyn, a chafodd ofal ardderchog gan ei theulu ar hyd y blynyddoedd hynny.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â John a Linda Owen, 7 Tai Caradog, Deiniolen a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar o golli mam John, Mrs Ellen Owen, Plas Pengwaith, Llanberis y mis diwethaf.

Cwrs Grawys

Gofynnwyd i ni dynnu sylw at Gwrs Grawys 2018, '40 o Straeon Gobaith', yng nghapel Shiloh, Tregarth bob nos Iau o hyn i'r Pasg. Bydd y cyfarfod nesaf am 7.00 o'r gloch, nos Iau, Mawrth 15.

Dyma'r themau nesaf yn y gyfres:

Mawrth 15: Gweithredoedd yn llefaru (Marc 14:22-25)

Mawrth 22: Trechu Angau (Marc 14:53-65)